



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

CANLLAWIAU

# Ffioedd am gladdu neu amlosgi plant: canllawiau i awdurdodau lleol

Esboniad o'r cyllid a'r trefniadau i lywodraeth leol er mwyn peidio â chodi tâl am gladdu plant.

Cyhoeddwyd gyntaf: 22 Mawrth 2021

Diweddarwyd ddiwethaf: 22 Mawrth 2021

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://llyw.cymru/ffioedd-am-gladdu-neu-amlosgi-plant-canllawiau-i-awdurdodau-lleol-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

# Cynnwys

## Memorandwm Cyd-Ddealltwriaeth (MOU)

### Cyllido

## Memorandwm Cyd-Ddealltwriaeth (MOU)

### Ai bedd plentyn i bedd dyfnder sengl yn unig a gynhwysir yn y cytundeb i beidio â chosi tâl?

Nage. Mae'r ffioedd yn cynnwys bedd o unrhyw faint, nid bedd plentyn neu fedd dyfnder sengl yn unig felly mae'n cynnwys beddau sy'n ddigon dwfn ar gyfer claddiadau pellach.

### A gawn ni godi tâl ar gyfer oedolion eraill?

Cynhwysir cost gychwynnol palu bedd i'r dyfnder sy'n caniatáu claddiadau pellach yn y cytundeb. Er hynny, gellir codi tâl am gladdiadau yn y dyfodol. Ni châi tâl ei godi am achosion ychwanegol o gladdu plant.

### Beth os bydd costau amlosgi a chladdu mae plentyn yn cael ei gladdu wedyn y gweddillion yn cael eu rhoi mewn llain?

Cynhwysir yr holl ffioedd sy'n gysylltiedig â'r amlosgi a'r claddu yn y cytundeb.

### Beth os nad yw'r plentyn yn dod o'r ardal?

Pennir cwmpas y cytundeb yn ôl ble mae'r claddu neu amlosgi yn digwydd, yn hytrach nag yn ôl ble'r oedd y plentyn yn byw. Ni fydd yr ardal yr oedd y plentyn

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://lyw.cymru/ffioedd-am-gladdu-neu-amlosgi-plant-canllawiau-i-awdurdodau-lleol-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

yn preswyllo ynddi cyn marw yn ystyriaeth gan fod y cytundeb yn seiliedig ar ildio'r ffioedd yn yr holl amgylchiadau (gan gynnwys bod y plentyn “allan o'r wlad”).

## **A yw'r Hawl Claddu Unigryw yn cael ei hildio?**

Ydyw. Hawl Claddu Unigryw (EROB), lle bo ei hangen, yw un o'r ffioedd safonol a gymhwysir gan yr MOU. Mae hawliau unigryw o'r fath yn bodoli ar gyfer y cyfnod safonol a bennir gan y Cyngor. Pan fydd y cyfnod hwnnw wedi dod i ben, bydd angen talu am Hawl Claddu Unigryw eto - felly nid yw am ddim am gyfnod amhenodol.

## **A yw'r MOU yn cwmpasu gweddillion ffetysau?**

Ydyw. Er hynny, lle'r ymdrinnir â gweddillion drwy gontract ysbyty ar hyn o bryd y disgwyl yw y byddant yn parhau i wneud hynny.

## **Beth am gost hawlen ar gyfer cofeb i carreg bedd?**

Cynhwysir hyn o fewn y cytundeb fel un o'r ffioedd safonol y mae awdurdodau claddu yn cytuno i beidio â'u codi.

## **Os nad yw awdurdod claddu, er enghraifft cyngor cymuned, yn cyflawni'r claddu eu hun a yw hyn yn golygu y bydd angen i'r teulu dalu am y gwasanaeth?**

Nac ydyw. Câi palwr y bedd ei ystyried yn “ddarparwr arall” y gwasanaeth perthnasol. Mater i'r awdurdod lleol a'r cyngor cymuned fyddai penderfynu sut y dylid talu'r costau hyn ond mae o fewn cwmpas y cyllid sy'n cael ei gynnig.

## **A yw'r MOU yn cynnwys costau angladd eraill megis cyfarwyddwyr angladdau, eirch, blodau?**

Nac ydyw. Mae'r MOU yn cyfeirio yn unig at ffioedd a godir gan Lywodraeth Leol

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Evch i <https://llyw.cymru/ffioedd-am-gladdu-neu-amlogi-plant-canllawiau-i-awdurdodau-lleol-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

ar gyfer claddu ac amlosgi, neu ffioedd cyfatebol a godir gan ddarparwyr eraill.

## **A gaiff teulu hawlio am y costau eraill hynny sy'n gysylltiedig â'r angladd?**

Gallai teulu fod yn gymwys am **Daliad Costau Angladd** (a elwir hefyd yn Daliad Angladd) oddi wrth yr Adran Gwaith a Phensiynau os ydynt yn cael rhai budddaliadau.

Gall Taliad Costau Angladd helpu i dalu am deithio i drefnu'r angladd neu i fynd iddo; cost symud y corff yn y DU, os yw'n cael ei symud fwy na 50 milltir; a thystysgrifau marwolaeth neu ddogfennau eraill.

Gall y teulu gael hyd at £1,000 ar gyfer unrhyw gostau angladd eraill, megis ffioedd y cyfarwyddwr angladdau, blodau neu'r arch.

## **Cyllido**

### **Beth yw diben y cyllid?**

Mae Llywodraeth Cymru'n trefnu bod cyllid ar gael i gydnabod goblygiadau ariannol peidio â chodi ffioedd ar gyfer claddu neu amlosgi plant.

### **Sut y mae'r cyllid yn cael ei ddarparu?**

Caiff y cyllid ei dalu i'r holl awdurdodau lleol, ar sail fformiwla sefydledig, trwy grant. Caiff y grant ei dalu mewn ôl-ddyledion ar yr amod y caiff yr amodau grant eu bodloni.

### **Sut y mae cyngorau cymuned neu ddarparwyr eraill yn cael mynediad i'r cyllid?**

Mae'r cyllid yn cael ei ddsbarthu trwy'r awdurdodau lleol. Mae'r awdurdodau lleol yn sefydlu eu trefniadau ariannu eu hunain. Os oes unrhyw gwestiwn neu

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Evch i <https://llyw.cymru/ffioedd-am-gladdu-neu-amlosgi-plant-canllawiau-i-awdurdodau-lleol-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

bryderon dylai darparwyr eraill gysylltu â'r awdurdod lleol perthnasol yn uniongyrchol.

## **Pa ddarparwyr eraill sy'n gymwys i gael taliad?**

Unrhyw ddarparwyr eraill sy'n darparu'r gwasanaethau perthnasol yn yr ardal, sy'n ymdrin â chladdu neu amlosgi'r plentyn ac nad ydynt yn codi tâl yn unol â'r cytundeb i gallai hyn gynnwys darparwyr preifat y gwasanaeth neu gyrff crefyddol.

## **A ydych yn rhoi gwybod i deuluoedd am y gwasanaeth hwn?**

Ddim ymgyrch uniongyrchol er i'r cytundeb gael cyhoeddusrwydd eang. Rydym yn rhagweld y bydd darparwyr yn rhoi gwybod i deuluoedd ar yr adeg y mae trefniadau'n cael eu gwneud i gladdu neu amlosgi plentyn.

## **Sut y penderfynwyd ar faint y cyllid?**

Trwy ddadansoddi costau cyfartalog y ffioedd o dan sylw a chyfanswm nifer y marwolaethau plant mewn blwyddyn.

## **Sut y mae'r cyllid yn cael ei ddsbarthu?**

Trwy fformiwla'r Asesiad o Wariant Safonol; gan adlewyrchu'r dull gweithredu o adnabod costau yn hytrach na thalu symiau gwirioneddol.

## **Beth yw'r amodau ar gyfer cael y grant?**

I grynhoi. Nad yw'r awdurdod lleol yn codi tâl yn unol â'r cytundeb a; bod trefniadau priodol ar waith ar gyfer rhannu'r cyllid â'r cynghorau cymuned a thref perthnasol, yn ogystal â darparwyr eraill y gwasanaethau perthnasol yn eu hardal sy'n delio â chladdu neu amlosgi plentyn ac nad ydynt yn codi tâl.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i <https://llyw.cymru/ffioedd-am-gladdu-neu-amlosgi-plant-canllawiau-i-awdurdodau-lleol-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

## **Beth a ystyrir yn “swm priodol”?**

Mater i'r awdurdod lleol benderfynu arno yw hwn ond fe ddylai fod yn swm teg a rhesymol.

## **Beth fydd yn digwydd os daw'r cyllid i ben?**

Mae'r cyllid yn cefnogi'r penderfyniad i beidio â chodi tâl ac nid i dalu costau gwirioneddol. Os bydd cyllid yn uwch na lefel y ffioedd sydd wedi'u gwario, yna caiff yr awdurdodau lleol gadw'r gwahaniaeth. Os daw mwy o hawliadau i law oddi wrth ddarparwyr eraill na swm y grant a dderbynnir, yna bydd yr awdurdodau lleol yn talu unrhyw ddiffyg. Dylid rhoi gwybod am unrhyw faterion sy'n dod i'r amlwg fel y gellir ei ystyried ar yr adeg adolygu.

## **Sut y bydd Llywodraeth Cymru'n monitro'r cyllid grant?**

Bydd Llywodraeth Cymru'n chwilio am dystiolaeth bod dwy brif amod y grant yn eu lle. Ni fydd Llywodraeth Cymru'n gofyn am fanylion am gladdiadau gwirioneddol fel rhan o fonitro grantiau gan mai swm penodedig ydyw. Er hynny, mae gennym ddiddordeb yn y ffordd y mae'r system wedi gweithio yn ymarferol gan y bydd hyn yn llywio'r adolygiad.

## **Beth fydd yn digwydd os na ddefnyddir yr holl gyllid?**

Bydd yr awdurdod lleol yn cael swm penodedig o gyllid waeth beth fo nifer y plant sy'n cael eu claddu neu eu hamlosgi. Os bydd cyllid yn uwch na lefel y ffioedd sydd wedi'u gwario, yna caiff yr awdurdodau lleol gadw'r gwahaniaeth.

## **Am faint y bydd y cyllid y cytundeb hwn yn ei le?**

Caiff yr MOU ei adolygu cyn y flwyddyn ariannol 2024 i 20205 i ddeall sut y mae'r cytundeb hwn wedi gweithio yn ymarferol.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i <https://llyw.cymru/ffioedd-am-gladdu-neu-amlosgi-plant-canllawiau-i-awdurdodau-leol-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i <https://llyw.cymru/ffioedd-am-gladdu-neu-amlosgi-plant-canllawiau-i-awdurdodau-lleol-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

## Ynghylch y ddogfen hon

Mae'r ddogfen hon yn gopi o'r dudalen we [Ffioedd am gladdu neu amlosgi plant: canllawiau i awdurdodau lleol](#) a lawrlwythwyd.

Ewch i <https://llyw.cymru/ffioedd-am-gladdu-neu-amlosgi-plant-canllawiau-i-awdurdodau-lleol-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Efallai na fydd y ddogfen hon yn hollol hygyrch; darllenwch ein [datganiad hygyrchedd](#) i gael rhagor o wybodaeth.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).



**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i <https://llyw.cymru/ffioedd-am-gladdu-neu-amlosgi-plant-canllawiau-i-awdurdodau-lleol-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).